Cyngor Cymuned Llandwrog
Community Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor
Council Minutes

20 Ionawr 2020 / 20 January 2020

Cyngor Cymuned Llandwrog Community Council

Cofnodion y cyfarfod o Gyngor Cymuned Llandwrog a gynhaliwyd Nos Lun, 20 Ionawr 2020 yn Canolfan Y Fron.

Minutes of the Full Council Meeting held Monday evening, 20 January 2020 at Groeslon Village Hall.

Yn bresennol / Present - 9 aelod / 9 members

Yn cynrychioli Ward y Fron – Representing the Ward of Fron
Cyng. Gwyn Owen Jones;

Yn cynrychioli Ward Carmel – Representing the Ward of Carmel
Cyng. Bryn Williams;

Yn cynrychioli Ward Y Groeslon – Representing the Ward of Y Groeslon
Cyng. Alun Wyn Jones; Cyng. Gerwyn Owen; Cllr. Eddie Willcox; Cyng. Hywel J Owen, Cyng. David C Davies

Yn cynrychioli Ward Llandwrog a Dinas Dinlle - Representing the Ward of Llandwrog & Dinas Dinlle
Cyng. Clive Bayley; Cyng. Dyfed Williams

Hefyd yn bresennol / Also in Attendence-

David Roberts, Rheolwr Gweinyddol a Chyllid y Cyngor / Council's Administrative & Finance Manager
Ann Willams Cyfieithydd / Translator. Dion Roberts, Parc Cenedlaethol Eryri am eitem 4 yn unig/ Item 4 only

---

20-01-01 **1 Croeso'r Cadeirydd / *Chairman's Welcome***

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd. Alun Wyn Jones. Croesawodd Ann Llwyd Williams oedd yn cyfieithu'r drafodaeth. Hefyd croesawodd Dion Roberts o Parc Cenedlaethol Eryri

The meeting was opened by the Chairman, Cllr.Alun Wyn Jones.He welcomed Ann Williams who was translating porceedings. He also welcolmed Dion Roberts from Snowdonia National Park.

Llongyfarchodd y Cadeirydd Dai Lloyd Evans am dderbyn Medal yr Ymerodraeth Brydeinig yn Rhestr Anrhydeddau'r Flwyddyn Newydd

The Chairman congratulated Dai Lloyd Evans for receiving the British Empire Medal (BEM) in the New Years Honours List

Penderfynwyd ysgrifennu llythyr ato i'w longyfarch
Resolved – to send a letter congratulating him on his award

20-01-02 **2 Ymddiheuriadau am Absenoldeb / *Apologies for Absences***

Cyng. Alan Patterson; Cyng. Robert Jones; Cyng. Helen Hughes

20-02-03 **3 Datgan Buddiant Personol Neu Fuddiant sydd yn Rhagfarnu gan Aelodau ar y Unrhyw Eitem ar y Rhaglen - Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000 - *To Receive disclosures of Personal and Prejudicial Interest by Members on any Items on the Agenda - Section 51 Local Government Act 2000***

Cyng. Alun Wyn Jones – Cais Cynllunio C19/1099/17/DT Arwel, Rhes Grugan, Y Groeslon LL54 7TD yn gymydog iddo / Planning Matters - application by a neighbour

---

20-02-04 **4 Cynllun Prosiect Cysylltu Comin a Chymuned Uwch Gwyrfai. / Uwch Gwyrfai Common and Community Links Project Officer – Ymweliad / Visit – Diweddariad o'r Cynllun gan Dion Roberts, Swyddog o'r Parc Cenedlaethol**

Croesawyd Dion Roberts , Cydlynydd Prosiect Uwch Gwyrfai i'r cyfarfod. Cafwyd diweddariad ganddo-
Prif faterion-
Lle'r rydym arni - Tu allan i'r tymor nythu – felly gwaith cyfalaf ar rheoli eithin a grug yn mynd yn ei flaen gan arbenigwr – gwaith yn dod i ben yn y cyfnod hwn ar 31 Mawrth 2020.
Gridiau yn pentref Y Fron – cyntaf wedi ei osod. Giat wedi cael 'latch' newydd sydd yn addas i farchogwyr. Canlyniad y bleidlais ar yr ail grid oedd 64% o blaid a 36% yn erbyn. Oherwydd y gwrthwynebiadau mae yna asesiad yn cael ei gynnal ar effaith y sŵn. Mi fydd y gwaith yn dod i ben os ydi'r canlyniad yn negyddol.
Tori Coed – coed ymledol i'r ardal yn cael eu torri lawr. Yn plannu coed brodorol ar y comin. Porwyr wedi cael y cyfle i wneud sylwadau. Dim wedi cyrraedd hyd yma.
Grantiau Waliau – £30,000 wedi ei dalu yn rhan 1. Rhan 2 yn cychwyn yn fuan. Gwahodd ceisiadau.
Llwybrau – Arolygwyr y Llywodraeth wedi gwrthod cynllun i adfer llwybr Ffynnon Dwr Poeth (Warmlee) dan Adran 38 o Deddf Comin 2006. Oediad sylweddol wedi bod. Bwriedir symud ymlaen hefo rhai agweddau o'r gwaith yn fuan ynghyd a clirio gordyfiant dros y ffynhonnau ger Cim a Tanybuarth.
Clwt Foty – cynllun ddim yn caniatáu y gwaith o glirio yr hen gerbydau ger mynedfa Hafoty Wen. Paul Hutchinson, Swyddog gyda Tir y Goron yn ymchwilio i'r mater i'r mater ac am weithredu.

Sylwadau Aelodau-
EW – Dwr yn sefyll yn y grid cyntaf yn Fron. Angen clirio y ffosydd. Hefyd angen clirio y ffosydd ger lleoliad yr ail grid.
Gwneud cais am hysbysfwrdd ar y comin yn sgwar y Fron

Diolchwyd i Dion gan y Cadeirydd am ei gyflwyniad cryno a clir. Gadawodd y cyfarfod am 7.55

20-01-05 **5 Derbyn Cofnodion y Cyfarfod Blaenorol a gynhaliwyd 16 Rhagfyr 2019 fel Rhai Cywir / To Confirm the Minutes of the Previous Meeting held on the 16 December 2019 as a True Record**

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.
The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

20-01-06 **6 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

20-01-07 **Lloches Bws Gardd y Coleg, Carmel / Carmel Community Garden Bus Shelter**

Adroddwyd gan y Rheolwr fod cyfarfod wedi ei gynnal rhwng aelodau y Cyngor (AP, AWJ a'r Rheolwr) gyda Elfyn Ellis, Adeiladwr ac aelodau o Bwyllgor Pentref ar Fore Sadwrn, 28 Rhagfyr 2019.

'Roedd pawb yn cytuno i ail leoli y lloches at y palmant. Cafwyd gadarnhad gan Cadeirydd y Pwyllgor i symud ymlaen gyda'r gwaith. Barn yr adeiladwr yw nad oes angen cais cynllunio ar gyfer y gwaith.

Adroddwyd gan y Rheolwr fod Elfyn Ellis wedi cynnig pris i gyflawni'r gwaith sef £2,820 + taw.

'Roedd mwyafrif o'r aelodau yn awyddus i dderbyn y pris gan fod y pris yn cynrychioli gwerth am arian ac yn agos iawn i'r gyllideb , yn osgoi oediad pellach (gan fod Elfyn am gwblhau y gwaith cyn diwedd Mawrth 2020) ac nad oes angen gwariant ar ffioedd pensaer.

Gan fod y pris dros £1,000 rhaid oedd rhoi y rheolau ariannol i'r neilltu.

Dywed Rgeolau Sefydlog y Cyngor fod rhaid ceisio am dri pris am wariant dros £1,000. Rhaid i'r Cyngor gytuno i rhoi cymal 11.7 o'r Rheolau Ariannol i'r neilltu ar gyfer yr eitem hwn os am derby pris EE.

Penderfynwyd i rhoi cymal 11.7 o'r Rheolau Ariannol i'r neilltu ar gyfer yr eitem hwn,
Resolved – to put set aside para 11.7 of the Councils Financial Regulations for this item
Cynnig gan GO ac eilwyd gan DCD. 7 o blaid a 2 yn erbyn

Penderfynwyd derbyn pris Elfyn Ellis o £2,820,
Resolved – to accept the quotation from Elfyn Ellis of £2,820
Cynnig gan GO ac eilwyd gan DCD, 7 o blaid a 2 yn erbyn

20-01-08 **Meysydd Chwarae Cyngor Gwynedd / Playing Areas**
Dim ymateb i gais y Cyngor am wybodaeth ynglyn y costau

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.
Resolved – to note the information

20-01-09 **Biniau Halen / Salt Bins**
Adroddwyd gan y Rheolwr fod Adran Amgylchedd Cyngor Gwynedd (Ian Morgan) wedi cadarnhau y bydd y biniau grit yn cael eu llenwi yn y dyddiau nesaf.
GOJ – angen sicrihau fod CG yn clirio'r biniau o fagiau baw cwn.

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a monitro y sefyllfa
Resolved - to accept the information & monitro the situation.

20-01-10 **Tomen Sibi**
Sylwadau Aelodau
BW a GOJ – sefyllfa wedi gwaethygu gan fod llechi yn disgyn i'r lon.

Penderfynwyd cysylltu eto gyda Adran Priffyrdd Cyngor Gwynedd ac i'r Adran sydd yn ymwenud a strwythurau peryglys.
Resolved - to inform the Highways Department again about the problem also the Dangerous Structures Department of Gwynedd Council.

20-01-11 **7 Derbyn Cofnodion Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd 7 Ionawr 2020 fel Rhai Cywir-** ***To Accept the Minutes of the Finance Committee held 7 January 2020, as a true record***

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

20-01-12 **8 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

20-01-13 **Cyllideb 2019-20 – Adolygiad Trydydd Chwarter – 2019-20 Budget Third Quarter Review**

Penderfynwyd derbyn argymhelliad y Pwyllgor fel a ganlyn -

- ***i) Fod y Cyngor yn derbyn cywirdeb y balansau fel y nodwyd at 31 Rhagfyr 2019***
- ***ii) Fod y Cyngor yn clustnodi £2,000 o danwariant eleni i balansau ac yn ei ddefnyddio i leihau praesept 2020-21.***
- ***iii) Fod y Cyngor yn nodi fod yna tanwariannau posibl eraill o £301.81 yn y gyllideb ond yn cadw yr arian wrth gefn ar hyn o bryd.***

Resolved – to accept the Committee's recommendation as follows-

- ***i) That the Council accepts the accuracy of the balances as noted as at 31 December 2019***
- ***ii) That the Council earmarks £2,000 from this year's underspend to balances and uses it to reduce the 2020-21 precept.***
- ***iii) That the Council notes that there are other potential underspends of £301.81 in the budget but keeps the underspend as unallocated at this time.***

20-01-14 **Cyllideb 2020-21 / 2020-21 Budget**

Trafodwyd y gyllideb mewn manylder.

Adroddwyd gan y Cadeirydd fod y Rheolwr wedi darparu adroddiad ac fod y Pwyllgor Cyllid yn argymell gosod cyllideb ganlynol yn 2020-21

	Cyllideb 2019-20	**Cyllideb 2020-21**	**Gwahaniaeth £**	**Gwahaniaeth %**
Gwariant	£59,850	£71,440	£11,590	19.37%
Incwm	(£4,850)	(£5,440)	(£590)	12.16%
Defnyddio Balansau	dim	(£2,000)	(£2,000)	
Net	**£55,000**	**£64,000**	**£9,000**	**16.36%**

Sylwadau Aelodau -

DW – ddim yn cytuno gyda penderfynaid y Cyngor i ariannu biniau halen. Mater i'r Cyngor Sir nid Cynghorau Cymuned. Yn gwneud y sylw fod praesept o £64,000 yn golygu y bydd pob anedd Band C yn y gymuned yn talu £58.05 y flwyddyn sydd yn swm uchel i rhai teuleuoedd.

GOJ – pob eitem ar y rhestr datblygiadau wedi eu craffu mewn cyfarfodydd blaenorol.

Penderfynwyd ar y canlynol -

- ***i) Fod y Cyngor yn derbyn fod y Pwyllgor Cyllid wedi archwilio cynnwys y gyllideb ac yn fodlon gyda'r ffigyrau fel y'i cyflwynwyd.*** *(unfrydol)*
- ***ii) Fod y Cyngor yn cymeradwyo'r datblygiadau hynny a nodir isod sydd angen eu cynnwys yng nghyllideb 2020-21 ac yn derbyn bydd y praesept yn cynyddu £9,000 neu 16.36% wrth gynnwys yr holl o'r datblygiadau sef -***
  - ***adroddiad blynyddol - amcan gost +£500***
  - ***cytundeb biniau halen - amcan gost +£1,500***

- ***cyfraniad at gynnal cae pêl-droed Y Groeslon +£1,000***
- ***blaenoriaeth gwariant y Cyngor – llwybrau mynwentydd +£1,370***
- ***blaenoriaeth gwariant y Cyngor - lloches bws Dinas Dinlle +£2,500 (£5,000 dros ddwy flynedd)***
- ***agor mynwent newydd Bryn'rodyn +£1,000***
- ***cytundeb cynnal gwefan newydd net cynnydd o +£290***
- ***cynnydd cost gweinyddiaeth +£1,040***
- ***Cynnydd yn y gyllideb Rhoddion ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2021 +£1,000***
- ***Cyfanswm £10,200***

Llai - Defnyddio Tanwariant 2019-20 (£2,000)

- ***Cyfanswm £8,200*** *(8 o blaid ac 1 yn erbyn)*

iii) ***Fod y Pwyllgor yn argymell i'r Cyngor osod praesept o £64,000 ar gyfer y flwyddyn ariannol 2020-21****(8 o blaid ac 1 yn erbyn)*

iv) ***Fod gweithgor Gwaith y Rheolwr yn adolygu oriau gwaith y Rheolwr cyn mabwysiadu unrhyw newidiadau***. (pawb o blaid)

Resolved -

i) ***That the Council accepts that the Finance Committee has scrutinized the budget as presented and is content with the figures.*** *(all in favour)*

ii) ***That the Council approves the developments as noted below that need to be included in the 2020-21 budget and accepts that the precept will increase by £9,000 or 16.3% if the Council includes all of the developments, namely***

- ***annual report – estimated cost £500***
- ***salt bin service - estimated cost £1,500***
- ***contribution towards the up-keep of Groeslon football pitch - £1,000***
- ***Councils Spending Priority – cemetery footpaths - £1,370***
- ***Councils Spending Priority – Dinas Dinlle bus shelter - £2,500 (£5,000 over two years)***
- ***opening of Bryn'rodyn new cemetery - £1,000***
- ***year 2 costs od new website - £290***
- ***increase in administration costs- £1,040***
- ***National Eisteddfod 2021 +£1,000***
- ***Total £10,200***

Less 2019-20 underspend (£2,000)

- ***Total £8,200*** *(8 for, 1 against)*

iii) ***That the Committee recommends that the Council sets a precept of £ 64,000 for the financial year 2020-21****(8 for, 1 against)*

iv) ***That the Manager's Working group is to review the Manager's working hours before implementing any change.*** *(all in favour)*

20-01-15 **Polisi Bancio a Talu Ar Lein / Banking & On Line Payments Policy**

Sylwadau Aelodau

EW – yn awgrymu fod yna wendid n trefniadau y Cyngor.
Rheolwr yn datgan y bydd y mater hwn yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Cyllid yn yr Asesiad Risg

Argymhelliad y Pwyllgor –

i) ***Fod y Cyngor yn derbyn y polisi Bancio a Talu Ar Lein***

ii) ***Fod y polisi yn weithredol o dyddiad cyfarfod Cyngor Llawn Ionawr 2020.***

iii) ***Fod y Cyngor yn monitro y sefyllfa ac yn adolygu y trefniant eto ymhen chwe mis***

Resolved -

i) That the Council accepts the Online Banking and Payment policy
ii) That the policy is effective from the date of the January 2020 Full Council meeting.
iii) That the Council monitors the situation and reviews the arrangement again in six months' time

---

20-01-16 **Praesept 2020-21 Precept**

Penderfynwyd - Fod y Cyngor yn cymeradwyyo y gyllideb fel a nodwyd isod ac felly yn gosod praesept o £64,000 yn 2020-21, cynnydd o £9,000 neu 16.36% yn erbyn paresept 2019-20

Resolved - That the Council approves the budget as set out below and therefore sets a precept of £ 64,000 in 2020-21, an increase of £ 9,000 or 16.36% against the 2019-20 precept.

Cynnig HJO, Eilydd GO – o blaid 8, yn erbyn 1

20-01-17 **9 Derbyn Cofnodion Gweithgor Ymgysylltu a gynhaliwyd 16 Ionawr 2020 fel Rhai Cywir-**
To Accept the Minutes of the Consulting Working Group held 16 January 2020, as a true record

Awdurdodwyd y Cadeirydd gan y Cyngor i arwyddo'r cofnodion fel rhai cywir.

The Council authorised the Chairman to sign the minutes as a true record.

20-01-18 **10 Materion yn Codi o'r Cofnodion / Matters Arising from the Minutes**

20-01-19 **Adroddiad Holiadur Ymgysylltu Cyhoeddus / The Report of the Consultation**

Penderfynwyd –

i) Fod y Cyngor yn derbyn ac yn cymeradwyo'r crynodeb o'r adroddiad
ii) Fod y Cyngor yn cymeradwyo y cyflawniad fel a ddarparwyd gan y Rheolwr a GOJ.
iii) Fod y cyflwyniad a'r adroddiad cael ei wneud yn gyhoeddus ar gwefan y Cyngor.

Resolved -

i) That the Council accepts and approves the summary report
ii) That the Council approves the introduction as provided by the Manager and GOJ.
iii) That the presentation and report is made public on the Council's website

20-01-20 **Adroddiad Blynyddol / Newyddlen / Annual Report / Newsletter**

Penderfynwyd -

i) Fod y Cyngor yn nodi fod y Gweithgor yn cychwyn ar y daith o ddarparu Adroddiad Blynyddol /Newyddlen ar gyfer 2019-20
ii) Fod y Cyngor yn derbyn cynnwys yr adroddiad fel a nodir uchod
iii) Fod y Cyngor yn derbyn yr amserlen fel a nodir uchod

Resolved

i) That the Council notes that the Working Group is embarking on the journey of providing an Annual Report / Newsletter for 2019-20
ii) That the Council accepts the contents of the report as noted above
iii) That the Council receives the timetable as noted above

20-01-21 **Gwefan y Cyngor / Council Website**

Penderfynwyd -

i) Fod y Cyngor yn nodi yr hynny adroddwyd

ii) Fod y Cyngor yn oedi cyn cytuno ar enw y gwefan newydd sef cyngorcymunedllandwrog.cymru / llandwrogcommunitycouncil.cymru

iii) Fod y Cyngor yn oedi cyn cytuno fod angen cyfeiriadau ebost safonol y Cyngor i aelodau

Resolved

i) That the Council notes what has been reported

ii) That the Council delays before agreeing on the name of the new website – cyngorcymunrdllandwrog.cymru / llandwrogcommunitycouncil.cymru

iii) That the Council delays the decision that standard Council email addresses are required for members

---

20-01-22 **11 Eisteddfod Genedlaethol Boduan 2021**

Trafodwyd llythyr yr Eisteddfod Genedlaethol am gyfraniad o £5,000 gan y gymuned i gynnal Eisteddfod Boduan yn 2021.

Dywedodd y Cadeirydd fod y Cyngor hwn wedi bod yn gefnogol yn y gorffennol. Yn awgrmu y dylid ystyried galw cyfarfod cyhoeddus cychwynnol ac i adael pethau ddatblygu o hynny ac i'r Cyngor ystyried ei gyfraniad o unrhyw ddiffyg fydd yn y targed gan y pwyllgorau lleol.

Sylwadau Aelodau –

HJO – dim capeli yn yr ardal ac mae'n bosib fod rhai o drigolion y gymuned yn awyddus i sefydlu pwyllgor, neu pwyllgorau yn y pentrefi i gasglu arian tuag at yr achos. Angen galw cyfarfod cyhoeddus.

Awgrymwyd gan yr aelodau i'w gynnal yn Neuadd Bentref Y Groeslon gan ei fod yn ganolog i'r gymuned. Roedd disgwyl i aelodau fynychu'r cyfarfod. CB, HJO a AWJ am fynychu. Angen i aelodau y Cyngor i hysbysu'r mater oddi fewn eu cymunedau, yn yr Herald (Newyddion y gymuned, Lleu unwaith y bydd dyddiad a lleoliad wedi ei gadarnhau. Gellir ystyried hysbys ar Radio Cymru hefyd S4C ar rhaglen Heno

Gofynnodd DW os oedd gan Swyddfa yr Eisteddfod becyn a swyddogion i gefnogi cymunedau i gasglu arian? AWJ am ddilyn y mater hwn i fyny.

Penderfynwyd

i) Fod y Cyngor yn galw cyfarfod cyhoeddus cychwynnol yn Neuadd Bentref Y Groeslon

ii) Fod y cyfarfod yn cael ei hysbysebu fel nodwyd uchod.

Resolved

i) That the Council convene an initial public meeting at Groeslon Village Hall.

ii) That the meeting be advertised as noted above

Gohebiaeth / Communiaction

20-01-23 **12 Cyngor Gwynedd Council**

Prosiect Partneriaeth Glynllifon Partnership

Trafodwyd y mater fel a nodwyd yn y rhaglen

Penderfynwyd enwebu Cynghorwyr Dyfed Williams a Clive Bayley i gynrychioli y Cyngor
Resolved – to nominate Councillors Dyfed Willaims & Clive Bayley to represent the Council

20-01-24 **13 Llywodraeth Cymru / Welsh Government**

Dogfen Ymgynghori - Newidiadau i ffoedd cynllunio a chesisiadau cysylltiedig
Consultation Document - Changes to planning and related application fees

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth heb sylwadau
Resolved – to accept the information without comments

Materion Cynllunio / Planning Matters

20-01-25 **14 Ceisiadau Cynllunio / Planning Applications - Ionawr 2020 / January 2020**

Manylion llawn y ceisiadau cynllunio
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=2

Full detais of the Planning Applications
https://diogel.gwynedd.llyw.cymru/swiftlg/apas/run/wphappcriteria.display?langid=1

20-01-26 Cais Rhif / Application Number - **C19/1216/17/RC**
Cyfeiriad / Address - **Cae Maen Llwyd Lodge, Glynllifon, Llandwrog LL54 5ED**
Bwriad / Proposal - **Dileu cytundeb 106 / Removal of existing S106 agreement**

Penderfyniad y Cyngor – dim sylwadau.
Council decision - no comments.

20-01-27 Cais Rhif / Application Number - **C19/1129/17/LL**
Cyfeiriad / Address - **Cae Glas, Llandwrog LL54 5TL**
Bwriad / Proposal - **Darparu storfa silwair / Prepare storage for silage**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad.
Council decision - no objections.

20-01-28 Cais Rhif / Application Number - **C19/1099/17/DT**
Cyfeiriad / Address - **Arwel, Rhes Grugan, Y Groeslon LL54 7TD**
Bwriad / Proposal - **Cais ar gyfer codi estyniad llawr cyntaf ar gefn yr eiddo / Application for the erection of a first floor extension on the rear of the property**

Penderfyniad y Cyngor – dim gwrthwynebiad.
Council decision - no objections.

Materion Ariannol / Financial Matters

20-01-29 **13 Derbyniadau Wedi ei Dderbyn Rhagfyr 2019 – Income Received December 2019**

Manylion / Details	Cyfanswm
dim	

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth .
Resolved to accept the information

20-01-30 **14 Taliadau sydd angen eu hawdurdodi gan y Cyngor - Payments to be approved**

Manylion / Details	Swm heb y TAW / Excluding VAT	TAW - VAT	Rhif Siec/ Cheque Number
Cyflog y Rheolwr – Ion 2020 – Managers Salary Jan 2020	£545.71		Uniongyrchol/Direct
HMRC-Treth Incwm Ion 2020 – Income Tax Jan 2020	£151.00		Uniongyrchol/Direct
HMRC – Yswiriant Gwladol y Rheolwr Ionawr/ NI Jan 2020	£4.20		Uniongyrchol/Direct
NEST – Cyfraniad y Cyngor Ion/Employers C'btions Jan 2019	£75.52		Uniongyrchol/Direct
NEST – Cyfraniad y Rheolwr Ion/Manager C'butions Jan 2019	£30.21		Uniongyrchol/Direct
Lwfans y Rheolwr – Ion 2019 – Managers Allowance Jan 2019	£24.00		Uniongyrchol/Direct
Ifan E Williams – Cytundeb Torri Gwair Mynwentydd / Cemetery Ground Maintenance	£5,718.96	£1,143.79	101930
IEW – Cytundeb Cynnal Llwybrau / Footpaths Maint	£2,274.88	£454.96	101930
IEW – Cytundeb Gwagio Biniau at 30 Tachwedd / Refuse Service to 30 November 2019	£866.67	£173.33	101930
IEW – Cytundeb Cynnal Caeau Peldroed / Football Field Maintenence	£2,000.00	£400.00	101930
ALW – Cyfiethu 20/1/20 Translation Service 20/1/20	£100.00	dim	AR LEIN
Viking Direct – Offer Swyddfa / Office Equipment	£184.68	£36.93	AR LEIN
Viking Direct – Offer Swyddfa / Office Equipment	£39.92	£6.65	AR LEIN
Lleu - Hysbyseb	£76.00	dim	AR LEIN

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth a rhoddwyd yr awdurdod i'r Rheolwr i ryddhau'r oll daliadau.
Resolved to accept the information and to authorise the Manager to release all the payments

---

20-01-32 **15 Materion i'w Codi gan aelodau i gyfarfod nesaf o'r Cyngor llawn 17 Chwefror 2020 / matters to be raised by Members for the Next Meeting 17 February 2020**

20-01-33 **16 Dyddiadau Cyfarfod Nesaf / *Dates of Next Meetings***

Cyfarfod / Meeting – **Cyfarfod o'r Cyngor Llawn Chwefror / February Full Council**
Dyddiad / Date - Dydd Llun 17-2-20 / Monday 17-2-20
Amser / Time - 7.30 yr hwyr / pm
Lleoliad / Venue Neuadd – Neuadd Groeslon

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Cyllid / Finance Committee**
Pwrpas / Purpose – Rhoddion a Asesiad Risg / Grants & Risk Assesment;
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed

Amser / Time – 7.00 pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed

Cyfarfod / Meeting – **Pwyllgor Mynwentydd ac Eiddo**
Pwrpas / Purpose – Amserlen agor fynwent Bryn'rodyn Newydd ynghyd a polisi cerrig beddi ; Diweddariad gwaith cynnal mynwentydd; Amserlen tendro cynnal tiroedd 2021; Polisi Defnydd Caeau Chwarae; Cynnig Cyngor Gwynedd i gymeryd cyfrifoldeb am y Meysydd Chwarae
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed
Amser / Time – 7.00 pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed

Cyfarfod / Meeting – **Gweithgor Ymgysylltu**
Pwrpas / Purpose – Gwefan Newydd – cadarnhau tudalenni, enw y porth, trefniadau e bost
Dyddiad / Date - i'w gadarnhau / to be confirmed
Amser / Time – 7:oo pm
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed
Lleoliad / Venue – i'w gadarnhau / to be confirmed

Daeth y cyfarfod i ben am 9:10 yr hwyr / The meeting ended 9:10 pm

Cafwyd y Cofnodion yn rhai cywir – The Minutes were recorded as accurate	
Arwyddwyd gan Gadeirydd y Cyngor **Signed by the Chairman**	
Dyddiad - Date	